



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

## Arweiniad ar wirio a chymeradwyo

Bydd y canllaw hwn yn esbonio'r broses wirio a chymeradwyo ar gyfer ceisiadau i ymuno â'r Gofrestr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol (y Gofrestr), ac adnewyddu'r cofrestriad.

Gallwch glicio ar y penawdau isod i ddarllen pob adran.

### Cymeradwyaeth ffurflenni

[1.1 Beth mae cymeradwyo yn ei olygu?](#)

[1.2 Pwy sydd angen cymeradwyaeth?](#)

[1.3 Pwy ddylai cymeradwyo?](#)

[1.4 Sut caiff cymeradwyo ei gwblhau?](#)

### Gwirio dogfennau

[2.1 Beth mae gwirio yn ei olygu?](#)

[2.2 Pwy sydd angen cael ei wirio?](#)

[2.3 Pa ddogfennau wedi'u gwirio sydd eu hangen i gofrestru?](#)

[2.4 Pa ddogfennau wedi'u gwirio sydd eu hangen i adnewyddu cofrestriad?](#)

[2.5 Pwy sy'n gallu bod yn wiriwr?](#)

[2.6 Beth sydd angen i wirwyr ei wneud?](#)

[2.7 Sut mae ddogfennau'n cael eu hanfon atom ni?](#)

### Dolenni defnyddiol

Cysylltwch â ni: [cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru](mailto:cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru)

Cewch wybod mwy ar ein gwefan: [www.gofalcymdeithasol.cymru](http://www.gofalcymdeithasol.cymru)

Ewch at eich cyfrif GCCarlein: [www.scwonline.wales](http://www.scwonline.wales)

# Cymeradwyo

## 1.1 Beth mae cymeradwyo yn ei olygu?

Mae cymeradwyo yn golygu cefnogi cais unigolyn i gofrestru neu adnewyddu ei gofrestriad. Mae'n golygu bod y wybodaeth y mae unigolyn wedi'i rhoi i ni yn gywir, ac nad oes unrhyw bryderon o ran ei gymeriad, ei gymhwysedd neu addasrwydd i ymarfer, ac felly gellir ystyried bod yr unigolyn yn addas i gofrestru â ni.

## 1.2 Pwy sydd angen cymeradwyaeth?

Bydd angen cymeradwyo **ceisiadau pob un o'r isod i ymuno â'r gofrestr:**

- rheolwyr gofal preswyl i blant
- gweithwyr gofal preswyl i blant
- rheolwyr gofal cartref
- gweithwyr gofal cartref
- rheolwyr cartrefi gofal oedolion
- gweithwyr cymdeithasol (gan gynnwys ymgeiswyr sydd newydd gymhwyso a chymhwyso y tu allan i'r DU)

**Nid** oes angen cymeradwyaeth i gofrestru fel myfyriwr gwaith cymdeithasol.

Bydd angen cymeradwyo ceisiadau pob un o'r isod i **adnewyddu eu cofrestriad:**

- rheolwyr gofal preswyl i blant
- gweithwyr gofal preswyl i blant
- rheolwyr gofal cartref
- gweithwyr gofal cartref
- rheolwyr cartrefi gofal oedolion

Bydd unigolion cofrestredig yn derbyn gwahoddiad i adnewyddu eu cofrestriad 86 diwrnod cyn diwedd eu cyfnod cofrestru o 3 blynedd. Rhaid i bob cais i adnewyddu cofrestriad gael eu cwblhau ar-lein yn GCCarlein. Rhaid i ni dderbyn ffurflen gyflawn o leiaf 21 diwrnod cyn y dyddiad adnewyddu, gan gynnwys cymeradwyaeth.

Bydd angen i weithwyr cymdeithasol adnewyddu eu cofrestriad ond nid oes angen cymeradwyaeth arnynt.

Nid yw myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn adnewyddu eu cofrestriad.

### 1.3 Pwy ddylai cymeradwyo?

Dylai cymeradwywyr:

- bod yn llofnodwr Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y sefydliad
- fod yn berson mewn rôl uwch
- pan fo modd, fod wedi gwneud gwiriad heddlu fel DBS
- fod yn weithiwr proffesiynol **nad yw'n perthyn, neu mewn perthynas bersonol gyda'r ymgeisydd**

Gall llofnodwyr:

- cymeradwyo ceisiadau
  - gwirio dogfennau
- gwirio cofnodion hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru (PRTL)
- helpu i gynnal cofrestr gyfoes

[Mae gwybodaeth am fod yn llofnodwr ar gael ar ein gwefan](#)

Mae'r tabl isod yn dangos pwy ddylai cymeradwyo:

| Mae'r ymgeisydd ...  | Dylai'r cymeradwywyr fod yn ...  |
|--|--|
| Yn cael ei gyflogi ym maes gofal cymdeithasol                  | Llofnodwr Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y sefydliad.<br>Os yw'r ymgeisydd yn gweithio mewn mwy nag un swydd gofal cymdeithasol, bydd angen llofnodwyr o'r ddau sefydliad i gymeradwyo'r cais.  |
| Yn hunangyflogedig ym maes gofal cymdeithasol                  | Dau uwch gynrychiolydd o gyflogwyr gofal cymdeithasol gwahanol. Mae angen i un ohonynt lenwi'r adran cymeradwyo ar llall i gydlofnodi fel ail gymeradwywr.<br><br>Mae'n rhaid i'r ddau gymeradwywr adnabod yr ymgeisydd am o leiaf ddwy flynedd.<br><br>Os yw'r ymgeisydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel unigolyn cyfrifol, rhowch wybod i ni trwy anfon e-bost i <a href="mailto:cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru">cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru</a> fel y gallwn ni gofyn am gymeradwyaeth ohonynt. |
| Wedi cyflogi ym maes gofal cymdeithasol gan asiantaeth gyflogi | Y llofnodwr cymeradwy ar gyfer yr asiantaeth gyflogi.  |
| Yn gweithio ar secondiad                                       | Llofnodwr Gofal Cymdeithasol Cymru y cyflogwr gwreiddiol a'r llofnodwr ar gyfer y cyflogwr secondiad. Mae'n rhaid i'r ddau gyflogwr cael eu cofnodi fel cyflogaeth bresennol.  |

| Mae'r ymgeisydd ...                             | Dylai'r cymeradwyer fod yn ...  |
|---|---|
| Gweithiwr cymdeithasol newydd gymhwyso          | <p>Os yw'r ymgeisydd wedi cyflogi ym maes gofal cymdeithasol, llofnodwr Gofal Cymdeithasol Cymru y sefydliad.</p> <p>Os nad yw'r ymgeisydd wedi cael swydd ym maes gofal cymdeithasol eto, llofnodwr Gofal Cymdeithasol Cymru y cwrs gwaith cymdeithasol.</p>   |
| Yn ddi-waith                                    | <p>Mae'r opsiynau canlynol ar gael:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y cyflogwr gofal cymdeithasol diweddaraf os gwnaethant ei gyflogi o fewn y 3 blynedd diwethaf, neu</li> <li>• lofnodwr y cwrs gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol, neu</li> <li>• berson uwch o gyflogwr gofal cymdeithasol arall, neu</li> <li>• perchennog / rheolwr busnes gofal cymdeithasol sydd wedi'i gofrestru gyda ni ac yn gyfarwydd gyda gwaith yr ymgeisydd</li> </ul> <p><b>ac</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ail gymeradwyaeth gan unigolyn proffesiynol, er enghraifft gweithiwr proffesiynol cofrestredig, ynad, cyfreithiwr, meddyg neu brifathro. Os nad yw unigolyn sy'n gallu tystio ymddygiad da yn llofnodwr, ni ellir cymeradwyo'r cais, ond gellir darparu geirada cymeriad i gyd-fynd â'r cymeradwyaeth cyntaf o'r rhestr uchod. Dylid cynnwys ei gyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost, manylion cyswllt ac esboniad o sut ydynt yn adnabod yr ymgeisydd. Mae'n rhaid i'r person yma adnabod yr ymgeisydd am o leiaf ddwy flynedd.</li> </ul> <p>Os caiff yr ymgeisydd swydd ym maes gofal cymdeithasol wrth wneud cais, bydd angen cymeradwyaeth pellach gan lofnodwr y sefydliad yna. Bydd rhaid i'r ymgeisydd brintio'r cais cyflawn er mwyn i'r cymeradwyaeth cael ei wneud wrth law.</p>  |
| Wedi cyflogi tu allan i faes gofal cymdeithasol | <p>Os oes angen i'r ymgeisydd cofrestru, ac maent yn medru bodloni ein gofyniadau adnewyddu, mae'r dewisiadau canlynol ar gael iddynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• y cyflogwr gofal cymdeithasol diweddaraf os gwnaethant ei gyflogi o fewn y 3 blynedd diwethaf, neu</li> <li>• lofnodwr y cwrs gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol, neu</li> <li>• berson uwch o gyflogwr gofal cymdeithasol arall, neu</li> <li>• perchennog / rheolwr busnes gofal cymdeithasol sydd wedi'i gofrestru gyda ni ac yn gyfarwydd â'ch gwaith</li> </ul> <p><b>ac</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ail gymeradwyaeth gan y cyflogwr presennol y tu allan i faes gofal cymdeithasol neu asiantaeth gyflogi, neu</li> <li>• ail cymeradwyaeth gan unigolyn proffesiynol sydd yn gallu darparu geirada cymeriad ac addasrwydd i gofrestru, er enghraifft gweithiwr proffesiynol cofrestredig, ynad, cyfreithiwr, meddyg neu brifathro. Os nad yw unigolyn sy'n gallu tystio ymddygiad da yn llofnodwr, ni ellir cymeradwyo'r cais, ond gellir darparu geirada cymeriad i gyd-fynd â'r cymeradwyaeth cyntaf o'r rhestr uchod. Dylid cynnwys ei gyfeiriad cartref, cyfeiriad e-bost, manylion cyswllt ac esboniad o sut ydynt yn adnabod yr ymgeisydd. Mae'n rhaid i'r person yma adnabod yr ymgeisydd am o leiaf ddwy flynedd.</li> </ul> <p>Os caiff yr ymgeisydd swydd ym maes gofal cymdeithasol wrth gwneud cais, bydd angen cymeradwyaeth pellach gan lofnodwr y sefydliad yna. Bydd rhaid i'r ymgeisydd brintio'r cais cyflawn er mwyn i'r cymeradwyaeth cael ei wneud wrth law.</p> |

|   |   |
|---|---|
| <b>Mae'r ymgeisydd ...</b>  | <b>Dylai'r ardystiwr fod yn ...</b>   |
| Yn weithiwr cymdeithasol sydd wedi hyfforddi neu gymhwyso y tu allan i'r DU | Mae <a href="#">canllawiau</a> penodol ar gael i'r rheiny a gymhwysodd y tu allan i'r DU. |

### 1.4 Sut caiff cymeradwyo ei gwblhau?

Bydd y cais trwy GCCarlein yn gofyn i'r ymgeisydd ddewis cymeradwywr oddi ar restr o'n llofnodwyr cymeradwy ar gyfer eu sefydliad neu eu pri-fysgol. Os bydd yr ymgeisydd yn dewis o'r rhestr hon ac yn cyflwyno'r ffurflen, caiff ei rhannu'n awtomatig â'r cymeradwywr a ddewiswyd. Byddant yn derbyn e-bost sy'n gadael iddynt weld a chymeradwyo'r cais.

Os nad yw'r cymeradwywr yn un o'n llofnodwyr, bydd angen i'r ymgeisydd argraffu'r ffurflen a'r cofnod hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru (PRTL), os bydd angen, a gofyn i'r cymeradwywr lenwi'r adrannau cymeradwyo wrth law.

Bydd angen i'r ymgeisydd sganio'r ffurflen sydd wedi ei gymeradwyo a'r copïau printiedig PRTL a wiriwyd a'u llwytho l'w gyfrif GCCarlein. I wneud hyn, mewngofnodwch i GCCarlein a dewis 'Fy Manylion Cyswllt', wedyn 'Llwytho dogfen' o'r ddewislen. Efallai y byddwn yn cysylltu â'r cymeradwywr i gadarnhau mai ef/hi a lofnododd y ffurflen a chadarnhau pwy ydynt.

#### **Ni allwn brosesu cais os nad yw'r holl adrannau yn gyflawn, gan gynnwys cymeradwyaeth.**

Rhaid i'r cymeradwywr:

- darllen y cais a gwneud yn siŵr bod y wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn cyd-fynd â'r wybodaeth sydd gan y llofnodwr, gan gynnwys gwybodaeth ddisgyblu ac addasrwydd i ymarfer. Ni fydd cymeradwywr yn gweld unrhyw ddatganiad iechyd na gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth mae'r ymgeisydd wedi'i rhoi i ni pan fyddant yn gweld y ffurflen
- gwirio'r ffurflen yn erbyn y cofnod cyflogaeth / myfyriwr
- cadarnhau dyddiad y gwiriad diweddaraf DBS y maent wedi'i gynnal fel rhan o'u cyflogaeth gyda nhw/cwrs gwaith cymdeithasol
- cwblhau'r wybodaeth angenrheidiol yn eu cyfrif GCCarlein i gadarnhau eu bod yn cymeradwyo'r ymgeisydd
- a gwirio cofnod hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru (PRTL) os bydd angen

Byddwn yn anfon e-bost i'r cymeradwywr i'w atgoffa bod ffurflen yn aros i gael ei chymeradwyo bob 7 diwrnod nes bydd y cymeradwyaeth wedi'i gwblhau.

**Er ein bod yn anfon y nodiadau atgoffa, cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw gwneud yn siŵr bod y ffurflen, gan gynnwys cymeradwyaeth, yn gyflawn. Ni fydd unrhyw ffurflenni anghyflawn yn cael eu prosesu a gallai hyn olygu y bydd y cais i gofrestru yn cau neu gofrestrriad yn dod i ben adeg adnewyddu.**

# Gwirio

## 2.1 Beth mae gwirio yn ei olygu?

Mae gwirio yn golygu edrych ar y ddogfen wreiddiol, gwneud llungopi ohonynt a'i llofnodi a'i dyddio i gadarnhau eu bod yn gopi cywir o'r ddogfen wreiddiol.

## 2.2 Pwy sydd angen cael ei wirio?

Byddwn yn gofyn am ddogfennau wedi gwirio gan bob un o'r isod sy'n gwneud cais i fod ar y Gofrestr am y tro cyntaf:

- rheolwyr gofal preswyl i blant
- gweithwyr gofal preswyl i blant
- rheolwyr gofal cartref
- gweithwyr gofal cartref
- rheolwyr cartrefi gofal oedolion
- gweithwyr cymdeithasol (gan gynnwys ymgeiswyr sydd newydd gymhwyso y tu allan i Gymru a'r rheiny sydd wedi cymhwyso tu allan i'r DU)

Efallai byddwn hefyd yn gofyn i'r ymgeisydd am ddogfennau gwiriedig eraill yn ystod cais i adnewyddu cofrestrriad, er enghraifft, cofnod o hyfforddiant neu dystysgrif cymhwyster.

Nid oes angen i ymgeisydd sydd wedi cofrestru gyda ni o'r blaen, anfon unrhyw ddogfennau adnabod atom, gan y bydd gennym y rhain eisoes.

Does dim rhaid i fyfyrwyr gofal cymdeithasol cyflwyno dogfennau yn ystod y broses ymgeisio gan fydd y brifysgol yn cadarnhau eu manylion adnabod fel rhan o'u prosesau nhw.

## 2.3 Pa ddogfennau wedi'u gwirio sydd eu hangen i gofrestru?

Bydd angen i ni weld y copïau gwiriedig yn unig ac ni fydd **byth** angen i ymgeisydd anfon y dogfennau gwreiddiol atom.

I gofrestru gyda ni am y tro cyntaf, mae angen i'r ymgeisydd anfon copïau o ddogfennau adnabod a thystysgrifau cymhwyster atom. Bydd angen i'r copïau gael eu gwirio i ddangos eu bod yn gopïau cywir o'r gwreiddiol.

Rhaid i bawb sy'n gwneud cais i gofrestru (**ac eithrio myfyrwyr a phobl sydd eisoes wedi cael eu cofrestru gyda ni**) anfon llungopi gwiriedig atom o'u ;

- tystysgrif geni

a llungopi gwiriedig o **un** o'r canlynol;

- tudalen adnabyddiaeth ffotograffig pasbort
- trwydded yrru â llun arni
- cerdyn adnabod â llun arno ar gyfer gwaith
- cerdyn adnabod â llun arno o un o'r Lluoedd Arfog Prydeinig
- cerdyn adnabod cenedlaethol â llun arno (gwledydd yr Undeb Ewropeidd yn unig)

Rhaid i'r dogfennau fod yn gyfredol, ac os nad ydynt yn Gymraeg neu Saesneg, rhaid darparu cyfieithiad ardystiedig.

**Rheolwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol** : bydd hefyd angen copi o'r dystysgrif gymwyster perthnasol neu dystysgrif fframwaith sefydlu gwaith cymdeithasol sydd wedi gwyrto. Rhaid i'r copi gael ei wirio gan reolwr llinell. Mae ymgeiswyr hunangyflogedig yn gallu gofyn i'r unigolyn sy'n gweithredu fel y cymeradwywr i'w wirio. Gwelwch [pwyl ddylai cymeradwyo cais](#).

**Gweithwyr cymdeithasol**: nid oes angen i weithwyr cymdeithasol sydd wedi cymhwyso yng Nghymru anfon eu tystysgrifau cymhwyster atom gan y byddwn yn cadarnhau'r cymhwyster gyda'r brifysgol. Os yw'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol y tu allan i'r DU, gweler y [cyngor canlynol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd â chymwysterau a enillwyd dramor](#).

## 2.4 Pa ddogfennau wedi'u gwirio sydd eu hangen i adnewyddu cofrestrriad?

### Tystysgrifau cymhwyster

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sydd wedi cofrestru gyda'r Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol (SCIF) neu Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (AWIF) anfon llungopi gwiriedig o'u tystysgrif cymhwyster atom wrth adnewyddu am y tro cyntaf.

### Cofnod o hyfforddiant: hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru (PRTL)

Rhaid i weithwyr cymdeithasol cofrestredig, rheolwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol gadw cofnod o PRTL. Nid yw hyn yn berthnasol i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol.

Rhaid gwneud 90 awr o hyfforddiant a dysgu yn ystod pob tair blynedd o gofrestru. Rydym yn argymhell i ddiweddarau PRTL yn GCCarlein trwy gydol y cyfnod cofrestru. Rhaid i'r ymgeisydd trafod yr hyfforddiant a dysgu gyda'u reolwr cyn ei gyflwyno i ni. Rhaid i'r rheolwr cytuno cwblhâd 90 awr yn y cyfnod cofrestru presennol a bod yr hyfforddiant wedi cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol yr ymgeisydd, neu wedi cyfrannu at ddatblygiad y proffesiwn yn gyffredinol.

### Gwirio hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru (PRTL):

**Rheolwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol** : rhaid i'r ymgeisydd anfon cofnod hyfforddiant PRTL atom sydd wedi ei wirio gan y rheolwr llinell. Dylid gweithwyr hunangyflogedig gofyn i'r unigolyn sy'n cymeradwyo i wirio'u hyfforddiant, neu gyflwyno portffolio tystiolaeth i ddangos eu bod nhw wedi cwblhau 90 awr o hyfforddiant. Ceir mwy o wybodaeth am sut gallwch wneud hyn yn adran [2.6 Beth mae angen i wirwyr ei wneud?](#) (Noder, ni allwn ddychwelyd y portffolio felly peidiwch ag anfon dogfennau gwreiddiol atom)

**Gweithwyr cymdeithasol** : rhaid anfon cofnod hyfforddiant PRTL atom gyda'r cais i adnewyddu. Bydd sampl o gofnodion hyfforddiant gweithwyr cymdeithasol yn cael eu dewis ar hap i'w gwirio bob blwyddyn. Bydd y gwahoddiad i adnewyddu yn esbonio'n glir os yw'r ymgeisydd wedi cael eu dewis fel rhan o'r sampl ac angen gwirio'u cofnod. Os nad yw'r gweithiwr cymdeithasol wedi cael eu dewis fel rhan o'r sampl, nid oes angen gwirio'u cofnod hyfforddiant.



## 2.5 Pwy sy'n gallu bod yn wiriwr ?

- Dylai gwiriwr fod yn llofnodwr cymeradwy Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae llofnodwyr cymeradwy yn bobl a enwebwyd gan gyflogwyr a phrifysgolion i weithio ochr yn ochr â ni a chefnogi'r broses gofrestru. Gellir gweld rhestr o lofnodwyr ar gyfer gweithle neu le astudio yn GCCarlein wrth lenwi ffurflen gais neu ffurflen adnewyddu. Os nad yw gwiriwr yn llofnodwr, bydd angen i'r cymeradwywr gadarnhau ei fod/bod yn unigolyn addas i gadarnhau'r manylion adnabod.

### Neu

- Os nad yw'r ymgeisydd yn cael ei gyflogi ym maes gofal cymdeithasol, gall unigolyn proffesiynol sydd wedi ei adnabod am o leiaf dwy flynedd, nad yw'n perthyn ac nad yw mewn perthynas bersonol â'r ymgeisydd, fod yn wiriwr. Er enghraifft, gweithiwr proffesiynol cofrestredig, fel ynad, meddyg neu brifathro. Gall gweithiwr cymdeithasol cofrestredig wirio dogfennau os yw'r unigolyn sy'n cymeradwyo'r cais neu adnewyddiad yn cadarnhau ei fod yn berson addas i wneud. Os yw'r ymgeisydd yn hunangyflogedig, ni ddylai'r gwiriwr fod yn gweithio i'r un sefydliad oni bai ei fod/bod mewn rôl uwch na'r ymgeisydd.

#### Gall llofnodwyr:

- cymeradwyo ceisiadau
  - gwirio dogfennau
- gwirio cofnodion hyfforddiant a dysgu ôl-gofrestru (PRTL)
- helpu i gynnal cofrestr gyfoes

[Mae gwybodaeth am fod yn llofnodwr ar gael ar ein gwefan](#)

## 2.6 Beth mae angen i wirwyr ei wneud?

### Ar gyfer tystysgrifau a dogfennau adnabod

Rhaid i wirwyr weld y dogfennau gwreiddiol a sicrhau bod unrhyw lungopïau yn gopiâu cywir o'r dogfennau gwreiddiol.

Ar bob llungopi, bydd angen iddynt:

- ysgrifennu eu henw llawn, teitl eu swydd, eu cyfeiriad e-bost a'r dyddiad
- llofnodi eu henw
- ysgrifennu 'Rydw i wedi gweld y ddogfen wreiddiol, ac mae'n gopi cywir'

Ni fydd dogfennau anghyflawn heb y gwiriad cywir yn cael eu derbyn.

### Cofnod hyfforddiant adeg adnewyddu (PRTL)

Os oes angen gwirio cofnod hyfforddiant ac mae'r gwiriwr yn llofnodwr cymeradwy ar gyfer y sefydliad, bydd rhestr o enwau ar gael fel rhan o'r broses i adnewyddu trwy GCCarlein.

Bydd rhaid i'r ymgeisydd ychwanegu ei holl PRTL ar GCCarlein a chyflwyno'r ffurflen fel y gellir ei rannu gyda'r llofnodwr. Gofynnir i'r llofnodwr gadarnhau trwy GCCarlein, eu bod wedi gweld y cofnodion hyfforddiant.

Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw gwneud yn siŵr bod y ffurflen, gan gynnwys cymeradwyaeth a'r gwiriad gofynnol, yn gyflawn. Ni fydd ffurflenni anghyflawn yn cael eu prosesu a gallai hyn olygu bod cofrestriad yn dod i ben adeg adnewyddu.

Os nad yw'r gwiriwr yn llofnodwr cymeradwy, gall y record PRTL cael ei brintio a'i llofnodi wrth law. Gellir wedyn llwytho'r cofnod i gyfrif GCCarlein yr ymgeisydd, neu ei ebostio i [gofalcymdeithasol.cymru](mailto:gofalcymdeithasol.cymru).

## 2.7 Sut mae ddogfennau'n cael eu hanfon atom ni?

Gall ymgeisydd:

- Llwytho copïau wedi'u sganio / lluniau o'ch dogfennau gwiriedig i gyfrif GCCarlein trwy ddefnyddio 'Llwytho dogfen' yn adran 'Fy Manylion Cyswllt'. Peidiwch llwytho dogfennau ar gyfer rhywun arall.
- Anfon copïau wedi'u sganio / lluniau o'ch dogfennau gwiriedig trwy'r e-bost i [cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru](mailto:cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru)
- Anfon llungopïau atom drwy'r post. Peidiwch **byth** ag anfon dogfennau gwreiddiol atom. Dylid gynnwys llythyr eglurhaol gydag enw a dyddiad geni i helpu i ni gysylltu'r dogfennau i'r cofnod.